Cod ymarfer ar gyfer arsyllwyr etholiadol

Y Comisiwn Etholiadol

Arsylliadau etholiadol yn etholiadau'r Deyrnas Unedig

Chwefror 2010

Cyfieithiadau a fformatau eraill

I gael gwybodaeth ynghylch cael y cyhoeddiad hwn mewn iaith arall, neu ar ffurf print bras neu Braille, cysylltwch â'r Comisiwn Etholiadol:
Ffôn: 020 7271 0500
Ebost: publications@electoralcommission.org.uk

Y Comisiwn Etholiadol

Rydym yn gorff annibynnol a sefydlwyd gan Senedd y DU. Ein nod yw hygrededd y broses ddemocrataidd a hyder y cyhoedd ynddi. Rydym yn rheoleiddio cyllid pleidiau ac etholiadau ac yn gosod safonau ar gyfer etholiadau a gynhelir yn dda.

Arsylliadau etholiadol yn etholiadau'r Deyrnas Unedig

Rhif Archeb: 0BUK10001W

Hawlfraint © Y Comisiwn Etholiadol 2010

Cynnwys

1	Cyflwyniad	1
2	Rhan A Arsyllwyr unigol	3
3	Rhan B Sefydliadau Arsyllwyr	15
4	Rhan C Canllawiau i Swyddogion Canlyniadau a Swyddogion Cyfrif a Swyddogion Llywwyddu	28

1 Cyflwyniad

Mae'r Deyrnas Unedig yn barti i sawl offeryn rhyngwladol sy'n cefnogi arsylliadau etholiadol fel dull gwirio pwysig i asesu trefniadau etholiadol yn erbyn normau a safonau a dderbynnir yn rhyngwladol. Yn 2006, creodd Llywodraeth y Deyrnas Unedig reolau i agor etholiadau'r Deyrnas Unedig i arsylliadau etholiadol, i grwpiau ac unigolion domestig a rhyngwladol. Mae'r Comisiwn Etholiadol yn gyfrifol am achredu arsyllwyr etholiadol,[1] ac mae'r llyfryn hwn yn amlinellu'r broses ar gyfer achredu, yn ogystal â hawliau a goblygiadau arsyllwyr yn etholiadau'r DU.

Ym mis Hydref 2005, cefnogodd sawl sefydliad rhynglywodraethol a rhyngwladol y *Declaration of principles for international election observation and Code of conduct for international election observers.*[2] Mae sawl cyfundrefn lle mae'r DU neu sefydliadau'r DU yn aelodau, wedi cefnogi'r Datganiad a'r Cod, gan gynnwys Ysgrifenyddiaeth y Gymanwlad, Cyngor Ewrop, y Comisiwn Ewropeaidd, Yr Undeb Rhyngseneddol, y Sefydliad dros Ddiogelwch a Chydweithrediad yn Swyddfa Ewrop dros sefydlu Democratiaeth a Hawliau Dynol a'r Cenhedloedd Unedig.

Tra bod y Datganiad a'r Cod yn cael eu gweithredu'n benodol i arsylliad etholiadol rhyngwladol, mae'r Comisiwn yn credu eu bod yn darparu sail gadarn ar gyfer holl arsylliadau etholiadau yn y DU. Felly, rydym wedi addasu'r Cod hwn i'w ddefnyddio yn y Deyrnas Unedig.

---

1 Heblaw am weithrediadau etholiadol neu arferion gweithio sy'n ymwneud ag etholiadau llywodraeth leol yn yr Alban yn unig.

2 Gweler **www.un.org/News/Press/docs/2005/hq645.doc.htm**, **www.ndi.org/node/13494** a **www.cartercenter.org/peace/democracy/des_declaration.html** (y cyfan yn hygyrch ar 27 Medi 2009).

Mae'r llyfryn hwn yn ffurfio Cod ymarfer y mae'n rhaid i'r Comisiwn baratoi dan Adran 6F "Y Ddeddf Pleidiau Gwleidyddol Etholiadau a Refferenda (PPERA)."

Rhan A Arsyllwyr Unigol

Ceisiadau am achrediad

Gall y Comisiwn achredu unigolion i arsyllu gweithrediadau penodol mewn digwyddiadau etholiadol priodol ar hyd a lled y Deyrnas Unedig.[3]

Y gweithrediadau yw:

- anfon neu dderbyn papurau pleidleisio drwy'r post
- cymryd pleidleisiau
- cyfrif pleidleisiau

Mae'n ofynnol i ymgeiswyr am achrediad ymgeisio i'r Comisiwn am achrediad ar ffurflenni a gyflenwir gan y Comisiwn ar gyfer y pwrpas hwn. Gellir cael ffurflenni cais drwy wefan y Comisiwn neu o unrhyw swyddfa'r Comisiwn. Mae'r holl ffurflenni ar gael yn Gymraeg a Saesneg ac ar gais, ar ffurfiau eraill.

Bydd y Comisiwn yn derbyn ceisiadau unrhyw amser, fodd bynnag, nis argymhellir i arsyllwyr posibl aros nes bydd etholiad ar ddigwydd neu wedi dechrau cyn ymgeisio.

Gall y Comisiwn ganiatáu achrediad i unrhyw unigolyn sydd dros 16 oed.[4]

[3] Heblaw am weithdrefnau etholiadol neu arferion gwaith sy'n ymwneud yn llwyr gydag etholiadau llywodraeth leol yn yr Alban.

[4] Adran 6C, PPERA

Proses ymgeisio

Mae'n rhaid i ymgeiswyr:

- gwblhau ffurflen gais y Comisiwn am achrediad fel arsyllydd etholiadol i unigolion yn Gymraeg neu Saesneg
- darparu cyfeiriad cyswllt, rhif ffôn a chyfeiriad e-bost i'r Comisiwn sy'n berthnasol dros gyfnod eu hachrediad. Os yw eu manylion cyswllt y tu allan i'r DU, bydd raid darparu rhif cyswllt ffôn symudol y DU neu rif ffôn symudol dramor.
- anfon ffotograff ohonynt ar ffurf electronig e.e. drwy e-bost neu ar CD, i'w ddefnyddio ar fathodyn adnabod,[5] neu fynychu swyddfa Comisiwn dynodedig i gael tynnu eu llun

Rhaid i'r ffotograff:

- gael ei anfon yn electronig, e.e. drwy e-bost neu ar CD
- fod o'r ymgeisydd yn wynebu'r camera
- gynnwys eu hwyneb llawn sy'n hollol eglur
- fod o'r ymgeisydd gyda'i lygaid ar agor

- ddarparu copi darllenadwy o un ai basbort, trwydded yrru, cerdyn adnabod cenedlaethol neu gerdyn adnabod etholiadol Gogledd Iwerddon ar adeg cyflwyno'r cais sy'n cadarnhau eu henw ac oed[6]
- ddarllen Cod Ymarfer y Comisiwn ar gyfer arsyllwyr etholiadol unigol a chytuno cadw at y canllawiau a nodir ynddo

[5] Mae JPEG, BMP a TIFF yn ffurfiau derbyniol. Dylai ymgeiswyr sicrhau nad oes hawlfraint ar y ddelwedd , fel y gellir ei throsglwyddo ar y bathodyn adnabod.

[6] Dylai ymgeiswyr nad ydynt yn berchen ar unrhyw ffotograffiaeth adnabyddiaeth fel hyn, gysylltu â'r Comisiwn am gyngor.

- ddatgan eu bod wedi derbyn copi o adran 66 o Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983 neu ei ddarpariaeth gyfatebol, fel eu bod yn deall ei ddarpariaethau ac y byddant yn cynorthwyo i gynnal cyfrinachedd y bleidlais
- gydsynio i'w henwau ymddangos ar gofrestr arsyllwyr y Comisiwn

Gellir e-bostio ceisiadau i: observers@electoralcommission.org.uk.

Mae'r Comisiwn hefyd yn fodlon derbyn ceisiadau yn unrhyw un o'i swyddfeydd[7] yn ystod oriau busnes arferol, neu drwy'r post. Hysbysir ymgeiswyr yn ysgrifenedig ynghylch penderfyniad y Comisiwn i dderbyn neu wrthod eu cais, a rhoddir y rhesymau dros wrthod unrhyw gais. Bydd y Comisiwn yn gwneud ei orau i brosesu bob cais o fewn 10 diwrnod o dderbyn ffurflen gais gyflawn.

Daw'r achrediad yn effeithiol ymhen tri diwrnod yn dilyn ei ganiatáu a chynnwys yr arsyllydd ar gofrestr yr arsyllwyr a achredwyd.

Caniatáu ceisiadau

Bydd y Comisiwn yn caniatáu cais am achrediad, cyn belled ag y cydymffurfir â'r holl gamau gweinyddol yn y cais. Rhaid i ymgeisydd:

- gwrdd â gofynion y broses ymgeisio a nodir yn y Cod hwn
- beidio bod ag adroddiad o euogrwydd (dan Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983 neu unrhyw ddeddfwriaeth etholiadol arall yn y Deyrnas Unedig) neu'n euog o arfer etholiadol llygredig neu anghyfreithlon yn unrhyw le yn y Deyrnas Unedig yn y pum mlynedd cyn dyddiad y cais

[7] Darperir manylion cysylltu ar ddiwedd y rhan hwn.

Gall y Comisiwn wrthod cais am achrediad os na fydd y gofynion a nodir yn y Cod hwn yn cael eu hateb. Gall y Comisiwn hefyd wrthod cais os bydd yr ymgeisydd yn unigolyn sydd wedi cael diddymu ei statws yn y Deyrnas Unedig fel arsyllydd achrededig neu unigolyn a enwebwyd gan sefydliad achrededig gan y Comisiwn yn y pum mlynedd cyn dyddiad y cais.
Os bydd y Comisiwn yn gwrthod cais am achrediad, bydd yn darparu rhesymau'n ysgrifenedig.

Bydd y Comisiwn yn cynnal cofrestr o arsyllwyr a fydd ar gael i'w harchwilio gan y cyhoedd yn unrhyw swyddfa'r Comisiwn ac ar wefan y Comisiwn.

Bydd bob unigolyn sy'n cael ei osod ar y rhestr yn derbyn cerdyn adnabod gan y Comisiwn. Bydd unrhyw gerdyn adnabod fel hyn yn ddilys hyd 31 Rhagfyr y flwyddyn y'i cyflwynwyd, oni bai y gofynnwyd am gyfnod achrediad byrrach ar y ffurflen gais; nodir hyn ar y cerdyn adnabod.

Nid yw'n ofynnol gan y Comisiwn i ymgeiswyr nodi ardal etholiadol neu broses y maen nhw'n ceisio derbyn mynediad iddynt.

Diddymu achrediadau

Gall y Comisiwn ddiddymu achrediad os bydd yr arsyllydd yn:

1. methu cadw at y safonau ymddygiad a nodir yn adran ganllaw y Cod hwn
2. cael ei ddyfarnu'n euog neu dderbyn adroddiad o euogrwydd (dan Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983 neu unrhyw ddeddfwriaethau etholiadol eraill yn y Deyrnas Unedig) o arfer etholiadol llygredig neu anghyfreithlon yn unrhyw le yn y Deyrnas Unedig

Os, o ganlyniad i gamymddygiad, mae swyddog perthnasol wedi gorfod cael symud arsyllydd o weithgaredd etholiadol benodol, bydd y Comisiwn yn diddymu eu hachrediad dim ond os bydd y Comisiwn yn credu nad oedd yr unigolyn yn cadw at y Cod hwn a'r canllaw sy'n rhan ohono. Diffinnir camymddygiad yn 'Rhan C: Cyfarwyddyd i Swyddogion Canlyniadau, Swyddogion Cyfrif a Swyddogion Llywyddu' fel:[8]

- torri neu geisio torri cyfrinachedd y bleidlais
- atal gweithdrefnau etholiadol yn fwriadol
- gofyn i etholwyr ynghylch eu dewisiadau pleidleisio wrth arsyllu mewn gorsafoedd pleidleisio

Yn dilyn derbyn adroddiad gan y swyddog perthnasol, bydd y Comisiwn yn cysylltu â'r arsyllydd, gan roi cyfle iddo/i gyflwyno'i fersiwn ef/hi o'r digwyddiad yn ysgrifenedig. Bydd y Comisiwn yn ystyried bob cyflwyniad a dderbynnir ac unrhyw wybodaeth arall sydd ar gael cyn gwneud ei benderfyniad.

---

[8] Mae pŵer y swyddogion perthnasol i symud arsyllwyr oherwydd camymddygiad yn ychwanegol i'w pŵer i gadw trefn yn y gweithgareddau etholiadol priodol. Mae arsyllwyr yn destun i gyfarwyddiadau cyfreithlon swyddogion perthnasol a'r Heddlu o ran Trefn Gyhoeddus.

Os bydd y Comisiwn yn diddymu achrediad unigolyn, bydd yn darparu rhesymau'n ysgrifenedig.

Cyfarwyddyd i arsyllwyr etholiadol unigol

Rhaid i bob unigolyn a achredir fel arsyllwyr etholiadol gadw at y cyfarwyddyd hwn dros gyfnod ei achrediad. Diddymir achrediad unrhyw arsyllydd sy'n methu cadw at y safonau ymddygiad a nodir yn yr adran hon gan y Comisiwn.

Parchu hawliau'r Deyrnas Unedig, hawliau dynol rhyngwladol ac awdurdod cyrff etholiadol

Rhaid i arsyllwyr barchu deddfau'r Deyrnas Unedig yn ogystal â hawliau dynol a rhyddfreiniau sylfaenol ei phobl. Rhaid i arsyllwyr hefyd barchu awdurdod Swyddogion Canlyniadau[9], Swyddogion Cyfrif a'r Comisiwn, gan ddilyn unrhyw gyfarwyddyd cyfreithlon gan lywodraeth, diogelwch ac awdurdodau etholiadol y DU. Rhaid i arsyllwyr hefyd gynnal agwedd o barch tuag at swyddogion etholiadol ac awdurdodau cenedlaethol eraill. Rhaid i arsyllwyr nodi os bydd deddfau, rheoliadau neu weithrediadau gwladwriaethol a/neu swyddogion etholiadol yn fyrdwn gormodol neu'n rhwystro'r ymarferiad o hawliau'n ymwneud ag etholiad a warantir gan gyfraith, cyfansoddiad neu offeryn rhyngwladol priodol.

Cynnal amhleidioldeb gwleidyddol caeth bob amser

Rhaid i arsyllwyr gynnal amhleidioldeb gwleidyddol bob amser yn ystod y cyfnod hwn o'u hachrediad, gan gynnwys yn ystod eu hamser hamdden. Ni chaniateir mynegi neu arddangos unrhyw dueddiadau neu ogwydd mewn perthynas ag awdurdodau cenedlaethol, pleidiau gwleidyddol, ymgeiswyr neu faterion refferendwm.

Ni ddylai arsyllwyr hefyd gymryd rhan mewn unrhyw weithgaredd y gellir ei amgyffred yn rhesymol fel ffafriaeth neu ddarparu cynnydd partisan i unrhyw gystadleuydd gwleidyddol yn y Deyrnas Unedig, megis gwisgo

[9] Trwy gydol y rhan hwn, mae'r cyfeiriadau at y 'Swyddog Canlyniadau' neu 'Swyddogion Canlyniadau' yn cynnwys cyfeiriadau at y Prif Swyddog Etholiadau dros Ogledd Iwerddon.

neu arddangos symbolau, lliwiau neu faneri pleidiol neu dderbyn unrhyw eiddo gwerthfawr gan gystadleuydd gwleidyddol.

Nid yw tadogaeth plaid wleidyddol yn diarddel unigolyn rhag dod yn arsyllydd achrededig yn awtomatig. Fodd bynnag, ni all aelodau, swyddogion neu weithwyr unrhyw blaid wleidyddol swyddogol yn y DU a fyddai, neu sy'n debygol o fod, yn wleidyddol weithredol yn ystod eu hachrediad, ymgeisio am achrediad.

Rhaid i ymgeiswyr sicrhau y byddant yn gallu cwrdd â'r gofynion ar gyfer amhleidioldeb gwleidyddol dan yr holl amgylchiadau a nodir yn yr uchod drwy gydol cyfnod eu hachrediad.

Gofynion cyfrinachedd

Bydd arsyllwyr yn cynnal a chynorthwyo i gynnal cyfrinachedd y bleidlais a byddant yn llofnodi cytundeb eu bod wedi derbyn copi o adran 66 Deddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983 neu ei ddarpariaeth gyfatebol a deall ei ddarpariaethau. Rhaid i arsyllwyr gydymffurfio â phob cyfarwyddyd ar ddeunydd ffonau symudol, camerâu ac offer tebyg.

Peidiwch â rhwystro'r broses etholiadol

Rhaid i arsyllwyr beidio rhwystro unrhyw elfen o'r broses etholiadol, gan gynnwys prosesau cyn-etholiad, anfon papurau pleidleisio ac agor papurau pleidleisio drwy'r post, pleidleisio, cyfrif a thablu canlyniadau a phrosesau sy'n digwydd yn dilyn y diwrnod pleidleisio. Gall arsyllwyr ddod ag anghysondebau, twyll neu broblemau arwyddocaol i sylw swyddogion etholiadol yn y fan a'r lle, oni bai y byddai hyn yn mynd yn groes i ofynion cyfrinachedd a rhaid gwneud hyn mewn modd nad yw'n rhwystro. Gall arsyllwyr ofyn cwestiynau i swyddogion etholiadol, cynrychiolwyr pleidiau gwleidyddol ac arsyllwyr eraill y tu mewn i'r gorsafoedd pleidleisio a gallent ateb cwestiynau ynghylch eu gweithgareddau eu hunain, ar yr amod nad yw yr arsyllwyr yn rhwystro'r broses etholiadol. Wrth ateb

cwestiynau, ni ddylai arsyllwyr geisio cyfeirio'r broses etholiadol. Gall arsyllwyr ofyn ac ateb cwestiynau pleidleiswyr, ond ni allent ofyn iddynt ddweud i bwy neu i ba blaid neu leoliad refferendwm y maen nhw wedi pleidleisio.

Darparu adnabyddiaeth

Mae'n rhaid i arsyllwyr ddangos adnabyddiaeth a ddarparwyd gan y Comisiwn ac, mae'n rhaid ei gyflwyno i swyddogion etholiadol ac awdurdodau cenedlaethol â diddordeb ar gais. Rhaid i arsyllwyr sicrhau fod eu bathodyn adnabod yn weladwy bob amser wrth arsyllu.

Cynnal cywirdeb arsyllu a phroffesiynoldeb wrth lunio casgliadau

Rhaid i arsyllwr sicrhau fod eu harsylliadau'n gywir. Rhaid i arsylliadau fod yn gynhwysfawr, gan nodi ffactorau cadarnhaol yn ogystal â negyddol, gan wahaniaethu rhwng patrymau arwyddocaol a di-nod a nodi patrymau a all gael effaith bwysig ar gywirdeb y broses etholiadol. Rhaid i ddyfarniadau arsyllwyr fod yn seiliedig ar wybodaeth gywir o'r safon uchaf a dadansoddiad diduedd, gan wahaniaethu rhwng ffactorau goddrychol a thystiolaeth wrthrychol. Rhaid i arsyllwyr seilio'u holl gasgliadau ar dystiolaeth ffeithiol a gwiriadwy a pheidio â dod i gasgliadau'n rhy gynnar.

Cynnal ymddygiad personol gweddus

Rhaid i arsyllwyr gynnal ymddygiad personol gweddus a pharchu eraill, gan gynnwys arddangos sensitifrwydd i ddiwylliannau ac arferion y Deyrnas Unedig, arfer barn gadarn wrth ryngweithio'n bersonol ac ymddwyn gyda'r lefel uchaf o broffesiynoldeb bob amser, gan gynnwys yn ystod amser hamdden.

Cytuno i ddilyn y cyfarwyddyd hwn

Rhaid i bawb sy'n cymryd rhan mewn arsyllu etholiadol yn y Deyrnas Unedig ddarllen a deall y cyfarwyddyd hwn a rhaid iddynt lofnodi cytundeb i'w ddilyn.

Manylion cyswllt y Comisiwn Etholiadol

Rhaid i unigolion sy'n ymgeisio i fod yn arsyllwyr achrededig gyflwyno'r canlynol i'r Comisiwn:

- ffurflen gais wedi'i chwblhau
- copi o adnabyddiaeth ffotograffig
- ffotograff

Rhaid cyflwyno'r ffotograff ar ffurf electronig, er enghraifft, fel ffeil llun drwy e-bost. Gall ymgeiswyr hefyd e-bostio eu ffurflen gais i'r Comisiwn, ynghyd ag adnabyddiaeth ffotograffig addas. Dylid anfon holl gyfathrebiadau e-bost i'r cyfeiriad e-bost canlynol: observers@electoralcommission.org.uk

Gall ymgeiswyr sy'n dymuno anfon copi o'u hadnabyddiaeth ffotograffig, eu ffurflen gais a gwblhawyd, neu'r rhai sy'n dymuno anfon eu ffotograff ar ffurf electronig, megis CD, eu postio i unrhyw un o'n swyddfeydd:

Arsyllwyr y Comisiwn Etholiadol
Trevelyan House
30 Great Peter Street
London SW1P 2HW

Swyddfa Gogledd Lloegr y Comisiwn Etholiadol
York Science Park
IT Centre, Innovation Way
Heslington
York YO10 5DG

Swyddfa De Orllewin
y Comisiwn Etholiadol
Regus
1 Emperor Way
Exeter Business Park
Exeter EX1 3QS

Swyddfa Cymru
Y Comisiwn Etholiadol
Tŷ Caradog
1-6 Plas Sant Andreas
Caerdydd CF10 3BE

Swyddfa'r Alban
y Comisiwn Etholiadol
38 Thistle Street
Edinburgh EH2 1EN

Swyddfa Gogledd Iwerddon
y Comisiwn Etholiadol
Seatem House
28-32 Alfred Street
Belfast BT2 8EN

Dylai ymgeiswyr e-bostio cwestiynau ynghylch statws eu cais i observers@electoralcommission.org.uk neu ffonio 0207 271 0500.

Rhan B Sefydliadau arsyllwyr

Gall y Comisiwn achredu sefydliadau arsyllwyr i arsyllu gweithdrefnau penodedig mewn digwyddiadau etholiadol a refferendwm drwy gydol y Deyrnas Unedig.[10] Y gweithdrefnau hyn yw:

- anfon neu dderbyn papurau pleidleisio drwy'r post
- cymryd y pleidleisiau
- cyfrif y pleidleisiau

Mae'n ofynnol i sefydliadau sy'n ymgeisio am achrediad ymgeisio i'r Comisiwn am achrediad ar ffurflenni a gyflenwir gan y Comisiwn ar gyfer y pwrpas hwn. Gellir cael ffurflenni cais drwy wefan y Comisiwn neu unrhyw swyddfa'r Comisiwn. Mae'r holl ffurflenni ar gael yn Gymraeg a Saesneg ac ar ffurfiau eraill ar gais.

Bydd y Comisiwn yn derbyn ceisiadau ar unrhyw amser, fodd bynnag argymhellir i unrhyw sefydliad arsyllu beidio ag aros hyd nes bydd etholiad ar ddigwydd neu wedi dechrau cyn ymgeisio.

Pan fydd achrediad wedi'i roi, bydd sefydliad yn gallu enwebu arsyllwyr i fynychu gweithrediadau etholiadol neu refferendwm.

Proses ymgeisio

Mae'n rhaid i sefydliadau sy'n ymgeisio:

- gwblhau ffurflen gais y Comisiwn am achrediad fel sefydliad arsyllu etholiadol yn Gymraeg neu Saesneg
- darparu cyfeiriad cyswllt, rhif ffôn a chyfeiriad e-bost i'r Comisiwn sy'n berthnasol dros gyfnod eu hachrediad. Os yw eu manylion cyswllt y tu

[10] Ag eithrio digwyddiadau etholiadol neu arferion gweithredol sy'n gwbl gysylltiedig ag etholiad llywodraeth leol yn yr Alban.

allan i'r DU, bydd raid darparu rhif cyswllt ffôn symudol y DU neu rif ffôn symudol dramor.

- nodi cyfnod o hyd at dair blynedd y maent yn ceisio achrediad ar ei gyfer fel sefydliad
- datgan eu bod wedi darllen a deall Cod Ymarfer y Comisiwn ar gyfer sefydliadau arsyllu etholiadol a chytuno i gadw at y cyfarwyddyd sydd ynddo
- datgan y byddant yn darparu copi o adran 66 Deddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983 (RPA) i'w haelodau enwebedig neu ei ddarpariaeth cyfatebol ac y byddant yn cynorthwyo i gynnal cyfrinachedd y bleidlais
- cydsynio i enw'r sefydliad a rhestr o'i arsyllwyr enwebedig ymddangos ar gofrestr arsyllwyr y Comisiwn

Gellir e-bostio ceisiadau i: observers@electoralcommission.org.uk.

Mae'r Comisiwn hefyd yn fodlon derbyn ceisiadau yn unrhyw un o'i swyddfeydd[11] yn ystod oriau busnes arferol, neu drwy'r post. Hysbysir ymgeiswyr yn ysgrifenedig ynghylch penderfyniad y Comisiwn i dderbyn neu wrthod eu cais, a rhoddir y rhesymau dros wrthod unrhyw gais. Bydd y Comisiwn yn gwneud ei orau i brosesu bob cais o fewn 10 diwrnod o dderbyn ffurflen gais gyflawn. Daw'r achrediad yn effeithiol ymhen tri diwrnod yn dilyn ei ganiatáu a chynnwys y sefydliad ar gofrestr yr arsyllwyr a achredwyd.

[11] Rhoddir manylion cyswllt ar ddiwedd y rhan hwn.

Caniatáu ceisiadau

Nid oes unrhyw gyfyngiadau ar y nifer o arsyllwyr y gall unrhyw un sefydliad eu henwebu.

Ni fydd y Comisiwn yn gosod unrhyw feini prawf ychwanegol wrth benderfynu ar gais, cyn belled ag y cydymffurfir â'r holl gamau gweinyddol yn y cais.

Mae'n rhaid i'r sefydliad sy'n ymgeisio:

1. gwrdd â gofynion y broses ymgeisio a nodir yn y Cod hwn

2. beidio â chynnwys unrhyw un ar eu rhestr o unigolion enwebedig sydd ag adroddiad o euogrwydd (dan Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983 neu unrhyw ddeddfwriaeth etholiadol yn y Deyrnas Unedig) neu'n euog o arfer etholiadol llygredig neu anghyfreithlon yn unrhyw le yn y Deyrnas Unedig yn y pum mlynedd cyn dyddiad y cais, neu unrhyw un hyd y gwyddai'r sefydliad sydd wedi bod yn euog o drosedd etholiadol unrhyw le yn y byd yn y pum mlynedd cyn dyddiad y cais

3. beidio cynnwys unigolion a enwebwyd ar eu rhestr sydd wedi cael diddymu eu statws fel arsyllydd achrededig yn y Deyrnas Unedig neu unigolion enwebedig sefydliad achrededig gan y Comisiwn

Os gwrthodir cais gan sefydliad, gall y sefydliad gyflwyno cais pellach sy'n cydymffurfio â gofynion y Cod.

Diddymu achrediadau

Gall y Comisiwn ddiddymu achrediad sefydliad os bydd y sefydliad yn:

1. methu cadw at y safonau ymddygiadol a nodir yng nghanllaw'r Cod hwn

2. cynnwys unrhyw un ar eu rhestr o unigolion enwebedig fel arsyllydd sydd ag adroddiad o euogrwydd neu'n euog o arfer etholiadol llygredig neu anghyfreithlon yn unrhyw le yn y Deyrnas Unedig yn y pum mlynedd cyn dyddiad eu cynnwys ar y rhestr a diwedd eu cyfnod o achrediad

3. gynnwys unrhyw unigolyn ar eu rhestr o unigolion enwebedig sydd wedi cael eu symud am gamymddygiad o weithdrefn etholiadol benodol gan swyddog perthnasol.

Diffinnir camymddygiad yn 'Rhan C: Cyfarwyddyd i Swyddogion Canlyniadau, Swyddogion Cyfrif a Swyddogion Llywyddu' fel:[12]

- torri neu geisio torri cyfrinachedd y bleidlais

- atal gweithdrefnau etholiadol yn fwriadol

- gofyn i etholwyr ynghylch eu dewisiadau pleidleisio wrth arsyllu mewn gorsafoedd pleidleisio

[12] Mae grym swyddogion perthnasol i ddiddymu arsyllwyr am gamymddwyn yn ychwanegol i'r grym i gadw trefn yn y digwyddiad etholiadol perthnasol. Mae arsyllwyr yn amodol i gyfarwyddiadau cyfreithiol y swyddogion perthnasol ac i'r Heddlu o ran trefn gyhoeddus.

Dim ond oherwydd y rheswm a nodir ym mhwynt 2 uchod y bydd y Comisiwn yn diddymu achrediad sefydliad os bydd hysbysiad, bod y sefydliad yn gwrthod tynnu arsyllydd o'r fath ar unwaith oddi ar eu rhestr o unigolion a enwebwyd.

Dim ond oherwydd y rheswm a nodir ym mhwynt 3 uchod y bydd y Comisiwn yn diddymu achrediaeth sefydliad os bydd y ddau amod uchod yn cael eu bodloni:

a. Yn dilyn derbyn adroddiad gan y swyddog perthnasol, bydd y Comisiwn yn ystyried nad oedd yr unigolyn perthnasol yn cadw at y Cod a'r cyfarwyddyd oddi fewn iddo. Wrth dderbyn adroddiad gan y swyddog perthnasol bydd y Comisiwn yn cysylltu â'r arsyllydd, gan roi cyfle iddo/i gyflwyno ei fersiwn ef/hi o'r digwyddiad yn ysgrifenedig. Bydd y Comisiwn yn ystyried bob cyflwyniad a dderbyniwyd ac unrhyw wybodaeth arall sydd ar gael cyn gwneud ei benderfyniad.

b. bod y sefydliad yn gwrthod tynnu enw arsyllydd sy'n torri'r Cod hwn ar unwaith oddi ar eu rhestr o unigolion a enwebwyd

Os bydd y Comisiwn yn diddymu achrediad sefydliad, byddwn yn darparu rhesymau'n ysgrifenedig.

Enwebu aelodau

Gall sefydliad achrededig gyflwyno rhestr o aelodau a enwebwyd i weithredu fel arsyllwyr i'r Comisiwn. Gellir cyflwyno'r rhestr hon ar yr un pryd â'r cais am achrediad neu unrhyw bryd wedi hynny.

Rhaid i'r rhestr:

- fod ar y ffurf a ddarparwyd gan y Comisiwn
- gynnwys ffotograff o bob arsyllwr a enwebwyd, wedi ei gyflwyno ar ffurf electronig[13] i'w ddefnyddio ar fathodyn adnabod, neu i fynegi parodrwydd i fynychu swyddfa benodol y Comisiwn i gael tynnu eu llun

Rhaid i'r ffotograff:

- gael ei gyflwyno'n electronig, e.e. trwy e-bost neu ar CD
- fod o'r ymgeisydd yn wynebu'r camera
- gynnwys eu hwyneb yn llawn, a'i fod yn gwbl weladwy
- gael ei dynnu gyda llygaid yr ymgeisydd ar agor

- ddod gyda chopïau eglur o naill ai basbort, trwydded yrru, cerdyn adnabod cenedlaethol neu gerdyn adnabod etholiadol Gogledd Iwerddon sy'n cadarnhau enw ac oedran, neu gytundeb i'w gyflwyno yn un o swyddfeydd dynodedig y Comisiwn
- gynnwys datganiad ar gyfer pob arsyllwr enwebedig eu bod wedi darllen a deall Cod Ymarfer y Comisiwn ar gyfer sefydliadau arsyllu etholiadol ac yn cytuno i gydymffurfio â'r canllaw ynddo.
- cynnwys datganiad ar gyfer pob arsyllwr a enwebwyd i ddatgan eu bod wedi derbyn copi o adran 66 Deddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983 neu ei ddarpariaeth gyfatebol, eu bod yn deall ei ddarpariaethau ac y byddant yn cynorthwyo i gynnal cyfrinachedd y bleidlais.

[13] Mae JPEG, BMP a TIFF oll yn ffurfiau derbyniol. Dylai'r sefydliad sicrhau nad oes hawlfraint ar y ddelwedd, er mwyn gallu ei drosglwyddo i'w bathodyn adnabod.

Bydd y Comisiwn yn cynnal cofrestr o sefydliadau arsyllu ac arsyllwyr enwebedig fydd ar gael i'r cyhoedd i'w archwilio yn unrhyw un o swyddfeydd y Comisiwn ac ar wefan y Comisiwn. Bydd y Comisiwn yn darparu manylion cyswllt (yn cynnwys manylion tu allan i oriau gwaith) ar gyfer pob un o swyddfeydd y Comisiwn rhag ofn y bydd ymholiad neu bryder. Cofrestr y Comisiwn yw'r unig restr swyddogol o sefydliadau arsyllu achrededig ac arsyllwyr enwebedig.

Bydd y Comisiwn yn darparu cerdyn adnabod ffotograffig ar gyfer pob arsyllwr enwebedig. Oni bai y gofynnir am gyfnod achredu byrrach ar y ffurflen gais, bydd y cerdyn adnabod yn ddilys tan 31 Rhagfyr yn y flwyddyn y'i cyhoeddwyd; bydd hyn wedi ei nodi ar y cerdyn adnabod.

Ni fydd awdurdodiad o restr sefydliad o arsyllwyr enwebedig yn dod i rym tan dri diwrnod wedi cyhoeddi cardiau adnabod arsyllwyr a'u cynnwys ar y gofrestr o arsyllwyr achrededig.

Nid yw'r Comisiwn yn gofyn i sefydliadau nac arsyllwyr enwebedig ddynodi'r ardal etholiadol neu broses maent eisiau mynediad iddi.

Canllaw ar gyfer sefydliadau arsyllu etholiadol a'u harsyllwyr enwebedig.

Rhaid i bob sefydliad sydd wedi ei achredu fel arsyllwr etholiadol, a phob unigolyn a enwebir gan sefydliad achrededig o'r fath, gydymffurfio â'r Cod hwn yn ystod cyfnod eu hachrediad. Bydd y Comisiwn yn gofyn i unrhyw sefydliad ddiddymu arsyllwyr a ganfuwyd i fod yn gweithredu'n groes i'r canllaw hwn o'u rhestr o unigolion a enwebwyd.

Parchu deddfau'r Deyrnas Unedig, hawliau dynol rhyngwladol ac awdurdod cyrff etholiadol

Rhaid i arsyllwyr barchu deddfau'r Deyrnas Unedig yn ogystal â hawliau dynol a rhyddid sylfaenol ei phobl. Rhaid i arsyllwyr hefyd barchu awdurdod y Swyddogion Canlyniadau,[14] y Swyddogion Cyfrif a'r Comisiwn a rhaid iddynt ddilyn unrhyw gyfarwyddyd cyfreithlon gan awdurdodau llywodraethol, diogelwch ac etholiadol y Deyrnas Unedig. Rhaid i arsyllwyr hefyd gadw agwedd barchus tuag at swyddogion etholiadol ac awdurdodau cenedlaethol eraill. Rhaid i arsyllwyr nodi os bydd deddfau, rheoliadau neu weithredoedd swyddogion gwladol ac/neu etholiadol yn faich gormodol neu'n rhwystro cyflawni hawliau cysylltiedig ag etholiad sydd wedi eu gwarantu gan gyfraith, cyfansoddiad neu offerynnau rhyngwladol perthnasol.

Cynnal amhleidioldeb gwleidyddol llym ar bob adeg

Rhaid i arsyllwyr gynnal amhleidioldeb gwleidyddol llym ar bob adeg tra'u bod wedi eu cynnwys ar restr y sefydliad arsyllu o arsyllwyr enwebedig. Mae hyn hefyd yn berthnasol i'w hamser hamdden. Ni ddylent fynegi nac arddangos unrhyw duedd na ffafriaeth parthed awdurdodau cenedlaethol, pleidiau gwleidyddol, ymgeiswyr neu faterion refferendwm. Rhaid i arsyllwyr

[14] Trwy gydol y rhan hwn, mae cyfeiriadau at y 'Swyddog Canlyniadau' neu'r 'Swyddogion Canlyniadau' yn cynnwys cyfeiriadau at Brif Swyddog Etholiadol Gogledd Iwerddon.

hefyd beidio cyflawni unrhyw weithgaredd y gellid ei ddehongli o fewn rheswm i fod yn ffafrio neu ddarparu enillion pleidiol ar gyfer unrhyw gystadleuydd gwleidyddol yn y Deyrnas Unedig, megis gwisgo neu arddangos symbolau, lliwiau neu faneri pleidion neu dderbyn unrhyw beth o werth gan gystadleuwyr gwleidyddol.

Nid yw tadogaeth i blaid wleidyddol yn anghymhwyso unigolyn yn awtomatig rhag bod yn arsyllwr. Fodd bynnag, ni ddylid cynnwys aelodau, swyddogion neu gyflogeion plaid wleidyddol gofrestredig yn y Deyrnas Unedig a fydd, neu a fydd yn debygol o fod, yn wleidyddol weithgar yn ystod eu cyfnod achredu ar restr sefydliad o arsyllwyr enwebedig.

Dan bob amgylchiad, rhaid i ymgeiswyr deimlo y byddant yn gallu bodloni'r gofyniad ar gyfer amhleidioldeb gwleidyddol a gyflwynwyd uchod, ar gyfer cyfnod cyfan eu hachrediad.

Gofynion cyfrinachedd

Bydd arsyllwyr yn cynnal a chynorthwyo yng nghynnal cyfrinachedd y bleidlais ac yn llofnodi cytundeb i ddatgan y rhoddwyd copi o Adran 66 Deddf Cynrychiolaeth y Bobl iddynt, neu ei ddarpariaeth gyfatebol, a'u bod yn deall ei ddarpariaethau. Rhaid i arsyllwyr gydymffurfio â'r holl gyfarwyddiadau ar ddefnyddio ffonau symudol, camerâu ac ati.

Peidiwch â rhwystro prosesau etholiadol

Ni ddylai arsyllwyr atal unrhyw elfen o'r broses etholiadol, yn cynnwys prosesau cyn etholiad, cyhoeddi ac agor pleidleisiau drwy'r post, pleidleisio, cyfrif a thabliad o ganlyniadau a phrosesau sy'n digwydd wedi diwrnod yr etholiad. Gall arsyllwyr dynnu sylw swyddogion etholiadol yn y fan a'r lle at anghysondebau, twyll neu broblemau arwyddocaol oni bai y byddai hyn yn mynd yn groes i ofynion cyfrinachedd, a rhaid gwneud hynny mewn dull nad yw'n rhwystro. Gall arsyllwyr ofyn cwestiynau i swyddogion etholiadol,

cynrychiolwyr pleidiau gwleidyddol ac arsyllwyr eraill tu fewn i orsafoedd pleidleisio a gallant ateb unrhyw gwestiynau am eu gweithgareddau eu hunain, ar yr amod nad yw arsyllwyr yn rhwystro'r broses etholiadol. Wrth ateb cwestiynau, ni ddylai arsyllwyr geisio cyfeirio'r broses etholiadol. Gall arsyllwyr a phleidleiswyr ofyn ac ateb cwestiynau ond ni all arsyllwyr ofyn i bleidleiswyr ddweud wrthynt ar gyfer pa blaid neu safbwynt maent wedi pleidleisio.

Darparu adnabyddiaeth briodol

Rhaid i arsyllwyr arddangos y cerdyn adnabod a ddarparwyd gan eu sefydliad, yn ogystal â'r cerdyn adnabod sy'n ofynnol gan y Comisiwn, a rhaid ei gyflwyno i swyddogion etholiadol ac awdurdodau cenedlaethol eraill â diddordeb pan fydd angen. Rhaid i arsyllwyr sicrhau fod eu bathodyn adnabod yn weladwy ar bob adeg wrth arsyllu.

Cynnal cywirdeb arsylliadau a phroffesiynoldeb wrth ddod i gasgliadau

Rhaid i arsyllwyr sicrhau fod pob un o'u harsylliadau yn gywir. Rhaid i arsylliadau fod yn gynhwysfawr, gan nodi ffactorau positif a negyddol, gwahaniaethu rhwng ffactorau arwyddocaol a dibwys a nodi patrymau allai gael effaith bwysig ar gyfanrwydd y broses etholiadol. Rhaid i farn arsyllwyr fod yn seiliedig ar y safonau uchaf o gywirdeb gwybodaeth ac amhleidioldeb dadansoddiad, gan wahaniaethu rhwng ffactorau goddrychol a thystiolaeth wrthrychol. Rhaid i gasgliadau arsyllwyr fod yn seiliedig ar dystiolaeth ffeithiol a gwiriadwy a pheidio dod i gasgliadau'n rhy gynnar.

Cynnal ymddygiad personol cywir

Rhaid i arsyllwyr ymddwyn yn briodol a pharchu eraill, yn cynnwys arddangos sensitifrwydd tuag at ddiwylliannau ac arferion y Deyrnas Unedig, arfer barn gadarn o ran rhyngweithiad personol ac ymddwyn mor broffesiynol â phosibl ar bob adeg, yn cynnwys amser hamdden.

Cytuno i ddilyn y canllaw hwn

Rhaid i bawb sy'n cymryd rhan mewn arsylliad yn y Deyrnas Unedig ddarllen a deall y canllaw hwn a llofnodi cytundeb i ddatgan y byddant yn ei ddilyn.

Manylion cyswllt Swyddogion Etholiadol

Rhaid i sefydliadau sy'n ymgeisio i fod yn arsyllwyr achrededig gyflwyno'r canlynol i'r Comisiwn:

- ffurflen gais wedi ei chwblhau, yn cynnwys datganiadau wedi eu llofnodi gan bob arsyllwr a enwebwyd
- copïau o ddogfennau adnabod ar gyfer pob arsyllwr a enwebwyd
- ffotograff o bob arsyllwr a enwebwyd

Rhaid cyflwyno'r ffotograff ar ffurf electronig, er enghraifft fel ffeil llun gyda neges e-bost. Gall sefydliadau hefyd anfon y ffurflen gais mewn e-bost at y Comisiwn ynghyd â chopïau o ddogfennau adnabod ffotograffig priodol. Dylid anfon unrhyw negeseuon e-bost at y cyfeiriad canlynol: observers@electoralcommission.org.uk.

Gall sefydliadau sy'n dewis postio eu ffurflen gais neu gopïau o ddogfen adnabod ffotograffig eu hunigolion enwebedig, neu sefydliadau sydd eisiau cyflwyno lluniau o'u hunigolion enwebedig ar gyfrwng electronig, megis ar CD, bostio'r eitemau hyn i gyd at unrhyw un o'n swyddfeydd:

Y Comisiwn Etholiadol
Arsyllwyr
Trevelyan House
30 Great Peter Street
London SW1P 2HW

Y Comisiwn Etholiadol
North of England office
York Science Park
IT Centre, Innovation Way
Heslington
York YO10 5DG

Y Comisiwn Etholiadol
South West office
Regus
1 Emperor Way
Exeter Business Park
Exeter EX1 3QS

Y Comisiwn Etholiadol
Swyddfa Cymru
Tŷ Caradog
1-6 Plas Sant Andreas
Caerdydd CF10 3BE

Y Comisiwn Etholiadol
Swyddfa'r Alban
38 Thistle Street
Edinburgh EH2 1EN

Y Comisiwn Etholiadol
Swyddfa Gogledd Iwerddon
Seatem House
28-32 Alfred Street
Belfast BT2 8EN

Os bydd gennych unrhyw gwestiynau ar statws cais, dylai ymgeiswyr anfon e-bost at observers@electoralcommission.org.uk neu ffonio 0207 271 0500.

Rhan C Canllawiau i Swyddogion Canlyniadau a Swyddogion Cyfrif a Swyddogion Llywyddu

Mae adran 6F y Ddeddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000 (PPERA) nid yn unig yn ei gwneud yn ofynnol i'r Comisiwn gynhyrchu canllaw ar gyfer arsyllwyr, ond mae hefyd yn gofyn iddo gyhoeddi canllaw i Swyddogion Canlyniadau,[15] Swyddogion Cyfrif a Swyddogion Llywyddu ar weithrediad adran 6E. Mae adran 6F(7) yn ei gwneud yn ofynnol i Swyddogion Canlyniadau, Swyddogion Cyfrif a Swyddogion Llywyddu dalu sylw i'r canllaw hwn.

Canllaw[16]

Mae adran 6E PPERA yn caniatáu i Swyddog Canlyniadau, Swyddog Cyfrif neu Swyddog Llywyddu (swyddogion perthnasol) gyfyngu'r nifer o arsyllwyr unigol neu arsyllwyr enwebedig all fod yn bresennol ar unrhyw adeg wrth gyflawni'r etholiad, cyhoeddi a derbyn papurau pleidleisio drwy'r post a'r cyfrif. Ni all swyddogion perthnasol gyfyngu'r nifer o gynrychiolwyr y Comisiwn all fod yn bresennol mewn digwyddiad etholiadol.

Mae'r Comisiwn yn cynghori y dylai swyddogion perthnasol fod yn ofalus wrth arfer y grym hwn. Mae arsylwi etholiadol yn rhan gyfreithlon a gwerthfawr o'r broses etholiadol a dylid cymryd gofal i beidio rhwystro neu atal cyflawniad arsylliad. Mae'n bwysig nodi nad oes gan yr un swyddog hawl i atal mynediad i **bob** arsyllwr o ddigwyddiad cyfan, dim ond cyfyngu'r nifer o arsyllwr sy'n bresennol **ar unrhyw un adeg**.

---

15 Trwy gydol y rhan hwn, mae cyfeiriadau at y 'Swyddog Canlyniadau' neu'r 'Swyddogion Canlyniadau' yn cynnwys cyfeiriadau at Brif Swyddog Etholiadol Gogledd Iwerddon.

16 Mae PPERA yn dynodi fod yn rhaid i'r Cod hwn gynnwys canllaw i swyddogion perthnasol ar eu grymoedd i gyfyngu ar y nifer ac i ganslo hawl arsyllwr i fynychu digwyddiad penodol. Rhoddir canllaw ar ddarparu mynediad i arsyllwyr i ddigwyddiadau penodol etholiad yn amrywiol lawlyfrau'r Comisiwn ar gyfer Swyddogion Canlyniadau a llawlyfrau i staff gorsafoedd pleidleisio. Mae'r rhain oll ar gael i'w lawrlwytho o wefan y Comisiwn yn **www.comisiwnetholiadol.org.uk.**

Nid yw'r darpariaethau sy'n caniatáu ar gyfer presenoldeb cynrychiolwyr ac arsyllwyr y Comisiwn yn lleihau dyletswydd a chyfrifoldeb swyddogion perthnasol i gadw trefn gyhoeddus ac i hyrwyddo cyfrinachedd y bleidlais mewn unrhyw etholiad. Rhaid i gynrychiolwyr y Comisiwn ac arsyllwyr achrededig ddilyn unrhyw gyfarwyddyd cyfreithiol gan swyddogion perthnasol a'r heddlu.

Nid oes angen i swyddogion hysbysu arsyllwyr yn rhagweithiol o amser a lleoliad digwyddiadau perthnasol, fodd bynnag, dylid darparu'r wybodaeth yma i arsyllwyr achrededig a'r Comisiwn ar gais.

Y bleidlais

Parthed gorsaf bleidleisio,[17] dylai Swyddogion Llywyddu geisio cyfyngu ar y nifer o arsyllwyr etholiadol sy'n bresennol os fydd presenoldeb arsyllwyr – neu'r nifer o arsyllwyr – yn llesteirio cyflawniad pleidlais neu'n peryglu cyfrinachedd y bleidlais yn unig. Dim ond ar gyfer amser penodol ddylid rhoi cyfarwyddyd ar faint o arsyllwyr all fod yn bresennol mewn gorsaf bleidleisio – am 30 neu 60 munud, er enghraifft – neu os ceir amgylchiadau penodol – megis 'x' o etholwyr yn aros i bleidleisio neu 'y' o asiantiaid yn bresennol. Nid oes gan unrhyw swyddog hawl i rwystro mynediad i arsyllwyr i orsaf bleidleisio ar gyfer cyfnod cyfan y bleidlais, dim ond i gyfyngu'r nifer o arsyllwyr sy'n bresennol ar unrhyw adeg. Felly, bydd angen i Swyddogion Canlyniadau sicrhau fod gorsafoedd pleidleisio yn ddigon mawr ac wedi eu trefnu yn y fath fodd fel eu bod yn darparu pleidleisio effeithiol a chyfrinachol ym mhresenoldeb asiantiaid ac arsyllwyr etholiad.

Bydd y Comisiwn yn darparu cofrestr i Swyddogion Canlyniadau a Swyddogion Cyfrif i Swyddogion Llywyddu ddefnyddio i nodi unrhyw achlysuron pan fydd angen iddynt gyfyngu'r nifer o arsyllwyr mewn gorsaf bleidleisio. Bydd hyn yn cynorthwyo'r Swyddog Llywyddu i hysbysu'r Swyddog Canlyniadau os cyflwynir cyfyngiadau o'r fath.

[17] Neu derm cyfatebol.

Dylai'r Swyddog Canlyniadau sicrhau fod y Comisiwn yn derbyn copi o'r gofrestr y diwrnod wedi'r bleidlais os gosodwyd unrhyw gyfyngiadau.

Dim ond os bydd arsyllwr yn camymddwyn y gall Swyddogion Llywyddu wahardd arsyllwr o orsaf bleidleisio ar gyfer gweddill y bleidlais. Diffinnir camymddwyn fel:

- torri neu geisio torri cyfrinachedd y bleidlais
- rhwystro'r broses o bleidleisio'n fwriadol
- gofyn i etholwyr beth fydd eu pleidlais

Nid oes gan unrhyw arsyllwr a waharddwyd am gamymddwyn hawl i ddod yn ôl i'r orsaf bleidleisio am weddill y bleidlais. Bydd y Comisiwn yn darparu pro fforma i Swyddogion Llywyddu ddefnyddio os ydynt am wahardd arsyllwr o orsaf bleidleisio. Bydd yn gofyn i'r Swyddog Llywyddu hysbysu arsyllwyr yn ysgrifenedig pam eu bod yn cael eu gwahardd a darparu cofnod o'r gwaharddiad a'r rhesymau dros wahardd. Dylid darparu copi o'r datganiad hwn i'r Comisiwn cyn gynted â phosibl.

Y Swyddog Llywyddu sydd â'r pŵer i gadw trefn mewn gorsaf bleidleisio ac mae unrhyw arsyllwyr yn amodol i gyfarwyddiadau cyfreithiol Swyddogion Llywyddu a Swyddogion yr Heddlu o ran trefn gyhoeddus.

Cyhoeddi a derbyn papurau pleidleisio drwy'r post

Parthed cyhoeddi a derbyn papurau pleidleisio drwy'r post,[18] dylai Swyddogion Canlyniadau a Swyddogion Cyfrif geisio cyfyngu ar y nifer o arsyllwyr etholiadol sy'n bresennol os fydd presenoldeb arsyllwyr - neu'r

[18] Dan reoliadau 2001, mae 'derbyn papurau pleidleisio drwy'r post' yn cyfeirio at y broses gyfan o agor a gwirio pleidleisiau a ddychwelwyd trwy'r post. Mae gan arsyllwyr hawl i fynychu sesiynau agor o'r fath yn yr un modd ag y mae gan ymgeiswyr ac asiantiaid hawl.

nifer o arsyllwyr - yn llesteirio cyflawniad y digwyddiad neu'n peryglu cyfrinachedd y bleidlais yn unig. Dim ond ar gyfer cyfnod penodol o amser y dylid rhoi cyfarwyddyd ar faint o arsyllwyr all fod yn bresennol mewn digwyddiad ar gyfer cyhoeddi neu dderbyn pleidleisiau trwy'r post – megis am 30 neu 60 munud. Nid oes gan unrhyw swyddog hawl i rwystro mynediad i arsyllwyr i ddigwyddiad ar gyfer cyfnod cyfan y sesiwn, dim ond i gyfyngu'r nifer o arsyllwyr sy'n bresennol ar unrhyw adeg. Felly hefyd, bydd angen i Swyddogion Canlyniadau a Swyddogion Cyfrif sicrhau fod eiddo a ddefnyddir ar gyfer digwyddiadau wrth gyhoeddi pleidleisiau drwy'r post yn ddigon mawr ac wedi eu trefnu'n briodol i ddarparu prosesau effeithiol ym mhresenoldeb arsyllwyr ac wrth dderbyn pleidleisiau drwy'r post, ar gyfer ymgeiswyr ac asiantiaid hefyd.

Os yw'r gwaith o gyhoeddi a derbyn pleidleisiau trwy'r post yn cael ei roi ar gytundeb i gwmni allanol, rhaid i'r cytundeb gynnwys darpariaeth ar gyfer presenoldeb arsyllwyr yn y digwyddiad, a bydd angen i'r Swyddog Canlyniadau neu Gyfrif wneud trefniadau perthnasol gyda'u contractwyr i sicrhau y gellir cyflawni hyn yn ddiogel.

Bydd y Comisiwn yn darparu cofrestr i Swyddogion Canlyniadau a Swyddogion Cyfrif Ddefnyddio wrth gyfyngu ar faint o arsyllwyr sy'n bresennol wrth gyhoeddi neu dderbyn papurau pleidleisio drwy'r post. Bydd hyn yn cynorthwyo'r Swyddog Dychwelyd i nodi unrhyw achlysuron pan osodir cyfyngiad, ac am ba hyd. Dylai'r Swyddog Canlyniadau sicrhau fod y Comisiwn yn derbyn copi o'r gofrestr y diwrnod wedi'r bleidlais os gosodwyd unrhyw gyfyngiadau.

Dim ond os bydd yr arsyllwr yn camymddwyn y gall Swyddogion Canlyniadau a Swyddogion Cyfrif wahardd arsyllwr o ddigwyddiad cyhoeddi neu dderbyn papurau pleidleisio drwy'r post. Diffinnir camymddwyn fel:

- torri neu geisio torri cyfrinachedd y bleidlais
- rhwystro'r broses o bleidleisio drwy'r post yn fwriadol

Nid oes gan unrhyw arsyllwr a waharddwyd am gamymddwyn hawl i ddod yn ôl i'r digwyddiad am weddill yr etholiad. Bydd y Comisiwn yn darparu pro fforma i Swyddogion Canlyniadau a Swyddogion Cyfrif ddefnyddio os ydynt am wahardd arsyllwr o ddigwyddiad cyhoeddi neu dderbyn papurau pleidleisio trwy'r post. Bydd yn gofyn i'r Swyddog Canlyniadau neu Swyddog Cyfrif hysbysu arsyllwyr yn ysgrifenedig pam eu bod yn cael eu gwahardd a darparu cofnod o'r gwaharddiad a'r rhesymau dros wahardd. Dylid darparu copi o'r datganiad hwn i'r Comisiwn cyn gynted â phosibl.

Y Swyddog Canlyniadau neu Swyddog Cyfrif sydd â'r pŵer i gadw trefn mewn digwyddiad pleidleisio drwy'r post ac mae unrhyw arsyllwyr yn amodol i gyfarwyddiadau cyfreithiol Swyddogion Llywyddu a Swyddogion yr Heddlu o ran trefn gyhoeddus.

Y cyfrif

Parthed y cyfrif, dylai Swyddogion Canlyniadau a Swyddogion Cyfrif geisio cyfyngu ar y nifer o arsyllwyr etholiadol sy'n bresennol os fydd presenoldeb arsyllwyr – neu'r nifer o arsyllwyr – yn llesteirio cyflawniad y digwyddiad neu'n peryglu cyfrinachedd y bleidlais yn unig. Dim ond ar gyfer cyfnod penodol o amser y dylid rhoi cyfarwyddyd ar faint o arsyllwyr all fod yn bresennol yn y cyfrif – megis am 30 neu 60 munud. Nid oes gan unrhyw swyddog hawl i rwystro mynediad i arsyllwyr i'r cyfrif ar gyfer cyfnod cyfan y cyfrif, dim ond i gyfyngu'r nifer o arsyllwyr sy'n bresennol ar unrhyw adeg. Felly hefyd, bydd angen i Swyddogion Canlyniadau a Swyddogion Cyfrif sicrhau fod eiddo a ddefnyddir ar gyfer y cyfrif yn ddigon mawr ac wedi ei drefnu'n briodol i ddarparu prosesau effeithiol ym mhresenoldeb arsyllwyr ac asiantiaid cyfrif.

Bydd y Comisiwn yn darparu'r Swyddogion Canlyniadau a'r Swyddogion Cyfrif â chofrestr i'w cynorthwyo i gofnodi unrhyw achosion ble cyfyngir ar y nifer o arsyllwyr sy'n bresennol yn y cyfrif. Bydd hyn yn cynorthwyo'r Swyddog Canlyniadau neu'r Swyddog Cyfrif i nodi pam y gosodwyd y cyfyngiad hwn ac am ba hyd. Dylai'r Swyddog Canlyniadau neu'r Swyddog Cyfrif sicrhau fod y Comisiwn yn derbyn copi o'r gofrestr y diwrnod wedi'r bleidlais os gosodwyd unrhyw gyfyngiadau.

Dim ond os bydd yr arsyllwr yn camymddwyn y gall Swyddogion Canlyniadau a Swyddogion Cyfrif wahardd arsyllwr o'r cyfrif. Diffinnir camymddwyn fel:

- torri neu geisio torri cyfrinachedd y bleidlais
- rhwystro'r broses o gyfri'n fwriadol

Nid oes gan unrhyw arsyllwr sy'n cael ei wahardd am gamymddwyn hawl i ddychwelyd i'r cyfrif. Bydd y Comisiwn yn darparu pro fforma i Swyddogion Canlyniadau a Swyddogion Cyfrif ddefnyddio os ydynt am wahardd arsyllwr o gyfrif. Bydd yn gofyn i'r Swyddog Canlyniadau neu Swyddog Cyfrif hysbysu arsyllwyr yn ysgrifenedig pam eu bod yn cael eu gwahardd a darparu cofnod o'r gwaharddiad a'r rhesymau dros wahardd. Dylid darparu copi o'r datganiad hwn i'r Comisiwn cyn gynted â phosibl.

Y Swyddog Canlyniadau neu Swyddog Cyfrif sydd â'r pŵer i gadw trefn mewn cyfrif ac mae unrhyw arsyllwyr yn amodol i gyfarwyddiadau cyfreithiol Swyddogion Llywyddu a Swyddogion yr Heddlu o ran trefn gyhoeddus.

Y Comisiwn Etholiadol
Trevelyan House
Great Peter Street
London SW1P 2HW

Ffôn 020 7271 0500
Ffacs 020 7271 0505
info@electoralcommission.org.uk
www.electoralcommission.org.uk

I gysylltu â'n swyddfeydd yng Nghymru, yr Alban, Gogledd Iwerddon a rhanbarthau Lloegr, gweler tu fewn y clawr cefn am fanylion.

Rhif archebu: OBUK10001W

Rydym yn gorff annibynnol a sefydlwyd gan Senedd y Deyrnas Unedig. Ein nod yw hyggededd y broses ddemocrataidd a hyder y cyhoedd ynddi. Rydym yn rheoleiddio cyllid pleidiau ac etholiadau ac yn gosod safonau ar gyfer etholiadau a gynhelir yn dda.

Mae democratiaeth yn cyfrif

Sut i gysylltu â ni

Y Comisiwn Etholiadol
Trevelyan House
Great Peter Street
London SW1P 2HW
Ffôn: 020 7271 0500
Ffacs: 020 7271 0505
Ffôn Testun: 18001 020 7271 0500
info@electoralcommission.org.uk
www.electoralcommission.org.uk

Y Comisiwn Etholiadol
Scotland Office
28 Thistle Street
Edinburgh EH2 1EN
Ffôn: 0131 225 0200
Ffacs: 0131 225 0205
Ffôn Testun: 18001 0131 225 0200
infoscotland@electoralcommission.org.uk

Y Comisiwn Etholiadol
Swyddfa Cymru
Tŷ Caradog
1-6 Plas Sant Andreas
Caerdydd CF10 3BE
Ffôn: 029 2034 6800
Ffacs: 029 2034 6805
Ffôn Testun: 18001 029 2034 6800
gwybodaeth@comisiwnetholiadol.org.uk

Y Comisiwn Etholiadol
Northern Ireland Office
Seatem House
28–32 Alfred Street
Belfast BT2 8EN
Ffôn: 028 9089 4020
Ffacs: 028 9089 4026
Ffôn Testun: 18001 028 9089 4020
infonorthernireland@electoralcommission
.org.uk

Y Comisiwn Etholiadol
North of England Office
York Science Park
IT Centre
Innovation Way
Heslington
York YO10 5DG
Ffôn: 01904 567990
Ffacs: 01904 567719
Ffôn Testun: 18001 01904 567990
north@electoralcommission.org.uk

Y Comisiwn Etholiadol
South West Office
Regus
1 Emperor Way
Exeter Business Park
Exeter EX1 3QS
Ffôn: 01392 332877
Ffacs: 01392 332900
Ffôn Testun: 18001 01392 332877
southwest@electoralcommission.org.uk